

Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021, a Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2022 .

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn ar gyfer y Gweinidog Newid Hinsawdd gan y Gyfarwyddiaeth Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021, a Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2022.

Julie James

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

16 Rhagfyr 2021

RHAN 1

1. Disgrifiad

- 1.1 Sefydlwyd Cynllun Masnachu Allyriadau ("ETS") y DU gan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 ("y prif Orchymyn") fel cynllun masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer y DU gyfan, fydd yn ffordd gost-effeithiol o annog y sectorau pŵer, diwydiant ac awyrennau i leihau eu hallyriadau. Cafodd ei ddylunio ar y cyd gan Lywodraethau'r DU, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau a nod sero net y DU, yn ogystal â'n llwybr ni yng Nghymru i leihau allyriadau.
- 1.2 Mae'r ddeddfwriaeth sy'n sail i ETS y DU yn cael ei chyflwyno fesul cam, drwy gyfres o offerynnau statudol. Mae amseriad a threfn y gyfres hon wedi'u cynllunio i sicrhau bod darpariaethau cyfreithiol penodol yn cael eu cyflwyno yn ôl yr angen i'w rhoi ar waith. Cafodd yr holl ddeddfwriaeth sydd ei hangen i sefydlu'r cynllun ei gwneud yn 2020. Fodd bynnag, mae darpariaethau cyfreithiol heb eu gwneud ac er nad ydynt yn hanfodol i sefydlu ETS y DU ar 1 Ionawr 2021, fe'u hystyrir yn angenrheidiol er mwyn gallu rhoi'r cynllun ar waith yn effeithiol.
- 1.3 Mae'r Gorchmynion hyn yn y Cyfrin Gyngor yn creu'r darpariaethau cyfreithiol sy'n weddill ac yn mynd i'r afael â nifer fach o faterion technegol a gweithredol a nodwyd wrth ddatblygu'r cynllun.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Mae Rhan 3 o Atodlen 3 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 ("CCA") yn datgan bod yn rhaid sefydlu cynllun masnachu allyriadau sy'n gymwys i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon – fel yn yr achos hwn – drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Rhagnodir y weithdrefn briodol ar gyfer Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor gan adran 48 yr CCA. Gan fod Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2022 yn rhoi pwerau gorfodi ar gategori newydd o berson; yn creu trosedd newydd; ac yn estyn yr amgylchiadau lle caniateir rhoi cosb sifil, defnyddir y weithdrefn gadarnhaol.
- 2.2 Gan nad yw Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021 yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau y byddai adran 48(3) o'r CCA yn eu dal, defnyddir y weithdrefn negyddol.
- 2.3 Gan y bydd y Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor yn destun craffu gan Senedd y DU, nid ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol i'r offeryn hwn gael ei wneud na'i osod yn ddwyieithog.
- 2.4 Mae Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2022 yn dirymu ac yn ail-wneud diwygiadau a wnaed gan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2020. Gwnaeth

Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2020 ddiwygio Erthyglau 44, 65 a 75 o'r prif Orchymyn mewn perthynas â phwerau gorfodi. Gwnaeth y Cyd-bwyllgor Offerynnau Statudol adrodd ar Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2020 am fod amheuaeth a yw'n *intra vires* mewn un ffordd, sef bod y diwygiadau wedi'u cynnwys mewn offeryn sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol, yn hytrach na'r weithdrefn gadarnhaol, (gweler y Deugenfed Adroddiad Sesiwn 2019-21). Effaith Erthyglau 7, 11, 12 a 14 o Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2022 yw bod y diwygiadau a wnaed gan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2020 wedi eu dirymu ac yn cael eu hail-wneud gan Orchymyn sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

3. Cefndir Deddfwriaethol

- 3.1 Cafodd ETS y DU ei sefydlu gan y Prif Offeryn i fod yn weithredol o 1 Ionawr 2021, gan bara am ddeng mlynedd. Mae'r cynllun yn gweithio drwy ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr rhai gweithfeydd diwydiannol a rhai gweithredwyr awyrennau fonitro, adrodd ar ac ildio "lwfansau" sy'n cyfateb i'w hallyriadau nwyon tŷ gwydr ym mhob un o flynyddoedd y cynllun. Mae rhai gweithredwyr a gweithredwyr awyrennau yn cael dyraniad lwfansau yn ddi-dâl, a chyhoeddir eu manylion mewn tablau dyrannu. Cedwir lwfansau mewn cyfrifon yng nghofrestrfa ETS y DU, ac mae cap ar nifer y lwfansau y gellir eu creu. Ar gyfer gosodiadau sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd, mae dau gynllun optio allan, un ar gyfer "ysbytai neu allyrwyr bach" ("HSE"), ac un arall ar gyfer "allyrwyr bach iawn" ("USE"). Nid oes angen i'r gosodiadau hyn ildio lwfansau.
- 3.2 Roedd darpariaethau allweddol y prif Orchymyn yn ymdrin â chwmpas y cynllun, gofynion monitro ac adrodd, y cap a'i gyfeiriad (sef y graddau y mae'r cap yn gostwng), a rolau'r rheoleiddwyr wrth fonitro a gorfodi rheolau'r cynllun.
- 3.3 Gwnaed y prif Orchymyn a Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2020 o dan adran 44 o'r CCA. Gwneir Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021 a Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2022 hefyd o dan y pŵer hwnnw.
- 3.4 Fel y nodwyd uchod, mae Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021 yn cael ei wneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol, ac mae Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2022 yn cael ei wneud o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

4. Diben ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth

- 4.1 Diben Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021 a Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio)

2022 yw gwella'r ffordd y mae ETS y DU yn cael ei weithredu, hynny o safbwynt y cyfranogwyr ac o safbwynt y rheoleiddwyr.

4.2 Terfynau tiriogaethol y Gorchmynion hyn yw Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r ddau Orchymyn yn effeithio ar ddiwydiant, y sector pŵer ac ar y diwydiant awyrennau.

4.3 Ceir crynodeb o'r prif newidiadau isod:

Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021

Cynnydd yng nghapasiti ysbytai neu allyrwyr bach

4.4 Mae erthygl 25 yn diwygio Atodlen 7 i'r prif Orchymyn, sy'n ymwneud ag ysbytai ac allyrwyr bach. Mae'n mewnosod paragraffau 19A-19G, er mwyn i osodiadau sydd ar hyn o bryd o fewn cynllun optio allan yr HSE allu bod yn gymwys i gynyddu eu targedau allyriadau os rhagwelir y bydd eu hallyriadau'n cynyddu ar ôl twf yn eu capasiti. Y bwriad yw mynd i'r afael â'r ofn y gallai targedau allyriadau sy'n aros yr un peth neu ddim yn newid yn anghymelliad i fusnesau sy'n tyfu.

4.5 Mae erthygl 25 yn diwygio hefyd Atodlen 7 i ddarparu, pan ddefnyddir dilysydd i ddilysu allyriadau adroddadwy, bod y gweithredwr wedi'i eithrio o'r gofyniad i gyflwyno adroddiad o dan Erthygl 69(4) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/2066 ("Rheoliad Monitro ac Adrodd 2018").

Biodanwyddau hedfan

4.6 Mae Erthygl 5 ac Erthygl 22 yn diwygio adran ddehongli ac Atodlen 4 y prif Orchymyn. Mae'r paragraff 27 diwygiedig yn Atodlen 4 yn cymryd lle Erthygl 54 o Reoliad Monitro ac Adrodd 2018 fel y mae'n gymwys i ETS y DU. Mae'r diwygiad hwn yn darparu, os yw'r biodanwydd yn bodloni'r "meini prawf cynaliadwyedd" o dan Orchymyn Rhwymedigaethau Tanwydd Trafnidiaeth Adnewyddadwy 2007, mai sero yw'r "ffactor allyriadau". Mae hefyd yn gwneud darpariaeth i allu pennu ffracsiwn biomas tanwyddau cymysg drwy ddefnyddio cofnodion prynu. Mesur polisi dros dro yw hwn tra bod polisi ehangach ar gyfer defnyddio biodanwydd yn cael ei ddatblygu.

Cynlluniau monitro allyriadau (EMPs)

4.7 Mae Erthyglau 7-9 yn diwygio Erthyglau 28-30 o'r prif Orchymyn i ganiatáu i berson nad yw eto'n weithredwr awyrennau, yn ogystal â gweithredwyr awyrennau presennol, allu gwneud cais am gynllun monitro allyriadau. Ni fydd angen cydymffurfio â'r EMP nes i'r person ddod yn weithredwr awyrennau, felly byddai'r ddarpariaeth hon yn golygu na fydd y person o dan

unrhyw rwyddogaethau newydd neu mewn perygl o gael ei gosbi drwy wneud cais rhagweithiol am EMP.

Dyrannu hawliau hedfan di-dâl

4.8 Mae erthyglau 15-17 yn diwygio Erthyglau 34J, 34N a 34R i'r prif Orchymyn. Ochr yn ochr ag Erthygl 29, bydd y diwygiadau hyn yn datrys gwall a wnaed yn y fethodoleg ar gyfer cyfrifo dyraniad hawliau hedfan di-dâl ETS y DU i ymgeiswyr sy'n gymwys fel tyfwyr cyflym o dan ETS yr UE.

Diwygiadau i'r Gofrestrfa gan gynnwys cyfyngu ar atebolrwydd

4.9 Mae erthygl 27 yn mewnosod paragraff 8A yn Atodlen 5A i'r prif Orchymyn, sy'n ymwneud â chofrestrfa ETS y DU. Mae'r diwygiad hwn yn eithrio awdurdod ETS y DU a gweinyddwr y gofrestrfa rhag bod yn atebol i dalu iawndal wrth ymgymryd â swyddogaethau o dan Atodlen 5A. Nid yw'r eithriad rhag atebolrwydd yn cynnwys gweithred neu anweithred a wneir gyda "bwriad drwg". Bwriedir cynnwys gweithredoedd sy'n dwyllodrus neu'n faleisus, neu i hawliadau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

4.10 Mae erthygl 27 yn mewnosod paragraff 25 yn Atodlen 5A i'r prif Orchymyn. Mae'r diwygiad hwn yn galluogi deiliad cyfrif cofrestrfa i wneud cais i atal cyfrif.

4.11 Mae erthygl 27 yn diwygio paragraff 6A yn Atodlen 5A i'r prif Orchymyn. Mae'r diwygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr sicrhau bod allyriadau adroddadwy gweithredwyr a gweithredwyr awyrennau yn cael eu cofnodi yn y gofrestrfa ar ôl eu cyflwyno i'r rheoleiddiwr ar ddiwedd y flwyddyn adrodd.

4.12 Yn olaf, mae Erthygl 27 yn mewnosod paragraff 22(6) yn Atodlen 5A i'r prif Orchymyn. Mae'r diwygiad hwn yn galluogi gweinyddwr y gofrestrfa i wyrddroi lwfansau di-dâl sydd wedi'u dyrannu os ydyn nhw wedi'u camddyrrannu.

Cymeradwyo cynlluniau monitro/cynlluniau methodoleg monitro gan y rheoleiddiwr

4.13 Mae erthyglau 20-22 yn diwygio Erthyglau 70 a 72 o'r prif Orchymyn, a pharagraff 8 o'i Atodlen 4. Mae'r diwygiadau hyn yn galluogi'r rheoleiddiwr i wrthod cynllun monitro gosodiad ac i weithredwr y gosodiad apelio yn erbyn y penderfyniad i'w wrthod.

4.14 Mae erthyglau 24 a 25 yn diwygio paragraff 3 o Atodlen 6, a pharagraffau 9, 24 a 26 o Atodlen 7 i'r prif Orchymyn. Mae Atodlenni 6 a 7 yn ymwneud â thrwyddedau a'r HSE. Mae'r diwygiadau hyn yn galluogi'r rheoleiddiwr i wrthod rhoi trwydded oni bai bod cynllun monitro wedi'i gymeradwyo, neu fod y cynllun monitro yn cydymffurfio â Rheoliad Monitro ac Adrodd 2018.

Diben hyn yw sicrhau bod cynlluniau monitro a chynlluniau methodoleg monitro yn ddigonol ym mhob achos.

Cymhwyso cyfraith yr UE i ETS y DU

- 4.15 Mae'r prif Orchymyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer dyrannu lwfansau di-dâl ar gyfer allyrru nwyon tŷ gwydr (gweler Rhan 4A), ac mae Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2020 yn diwygio'r modd y cymhwysir Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/331 (y "Rheoliad Dyraniadau Di-Dâl") i ETS y DU. Bydd Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021 yn mewnosod darpariaethau newydd yn y prif Orchymyn, a fydd yn rheoli'r broses o ddyrannu lwfansau di-dâl i'r hen HSE a'r hen USE (gweler Erthygl 34HA, a fewnosodwyd gan Erthygl 14, ac Atodlen 8A, a fewnosodwyd gan Erthygl 27). Bydd y darpariaethau newydd hyn yn diwygio hefyd y modd y cymhwysir y Rheoliad Dyraniadau Di-dâl i ETS y DU (gweler Erthygl 30).
- 4.16 Mae'r prif Orchymyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer cymhwyso Rheoliad Monitro ac Adrodd 2018 i ETS y DU (gweler Erthygl 24, Rhan 4 ac Atodlen 4). Bydd Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021 yn gwneud diwygiadau pellach i'r modd y cymhwysir Rheoliad Monitro ac Adrodd 2018 i ETS y DU (gweler Erthygl 22).
- 4.17 Mae Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2020 yn diwygio'r modd y cymhwysir Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1842 ("y Rheoliad Newid Lefel Gweithgarwch") i ETS y DU. Bydd Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021 yn gwneud diwygiadau pellach i'r Rheoliad hwn (gweler Atodlen 8A, a fewnosodir gan Erthygl 27).

Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2022

Cosb sifil am beidio â ddychwelyd lwfansau

- 4.18 Mae erthygl 10 yn mewnosod Erthygl 64A yn y prif Orchymyn. Mae erthygl 64A yn galluogi rheoleiddiwr i osod cosb sifil pan nad yw person yn cydymffurfio â hysbysiad a roddir o dan Erthygl 34V o'r prif Orchymyn, i ddychwelyd lwfansau.

Archwiliadau

- 4.19 Mae erthygl 5 yn diwygio Erthygl 39 o'r prif Orchymyn, sy'n caniatáu i'r rheoleiddiwr archwilio safleoedd i fonitro cydymffurfiaeth. Mae'r diwygiad hwn yn estyn y pŵer i "person awdurdodedig". Diffinnir "person awdurdodedig" yn Erthygl 38(2) o'r prif Orchymyn.

Pwerau mynediad

- 4.20 Mae erthygl 6 yn diwygio Erthygl 40 o'r prif Orchymyn, sy'n rhoi pwerau mynediad i reoleiddiwr a pherson awdurdodedig. Mae'r diwygiad hwn yn ei

gwneud yn drosedd rhwystro'r naill berson neu'r llall yn fwriadol wrth iddynt arfer y pwerau hyn.

Peidio ag ildio lwfansau

- 4.21 Mae erthyglau 9 a 13 yn diwygio Erthygl 52 ac Atodlen 6 y prif Orchymyn. Mae'r diwygiadau i Atodlen 6 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr gosodiad ildio unrhyw lwfansau sy'n brin o flynyddoedd blaenorol y cynllun pan fydd eu trwydded naill ai wedi'i hildio neu ei dirymu. Mae'r diwygiadau i Erthygl 52 yn sicrhau na fydd y gweithredwr yn agored i "gosb am orallyrru" am fethu â gwneud hynny.

5. Ymgynghori

- 5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad chwe wythnos rhwng 27 Gorffennaf 2021 a 7 Medi 2021 ar y diwygiadau arfaethedig i'r prif Orchymyn; ac roedd yn cynnwys copïau o'r ddau Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor ar ffurf drafft. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar y diwygiadau, sydd â'r nod o fynd i'r afael â nifer o faterion technegol gweddilliol a nodwyd wrth ddatblygu deddfwriaeth y cynllun.
- 5.2 Cawsom 7 ymateb i'r ymgynghoriad, ac nid oedd yr un ohonynt yn effeithio'n sylweddol ar fwriad polisi arfaethedig y diwygiadau, nag ar ddrafft y testun cyfreithiol.
- 5.3 Yn dilyn yr ymgynghoriad a gyhoeddwyd, cynhaliodd awdurdod ETS y DU (Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon) ymgynghoriadau wedi'u targedu ar ffurf cyfarfodydd ford gron i drafod y diwygiadau allai ddilyn, sydd bellach wedi'u cynnwys yn y Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor.
- 5.4 Cyn gwneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 44 o'r CCA, mae gofyn i Weinidogion Cymru ofyn am gyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd (adran 48(1)(a) CCA, a'i ystyried. Mae gofyn iddynt hefyd ymgynghori â'r personau hynny yr effeithir arnynt gan y ddeddfwriaeth ddrafft, fel y gwelant yn briodol (adran 48(1)(b) CCA).
- 5.5 Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, gofynnodd Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon gyngor y CCC ar yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y cyd. Adolygodd y CCC y ddogfen ymgynghori ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ar y cynnwys.
- 5.6 Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/consultations/uk-emissions-trading-scheme-proposed-amendments>

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

- 6.1 Nid yw'r Gorchmynion hyn yn ddarpariaethau rheoleiddio. Y maent yn hytrach yn gwneud newidiadau technegol i ddiweddarau is-ddeddfwriaeth.

Gan nad yw'r diwygiadau'n newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol, nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer asesu effaith reoleiddiol ar is-ddeddfwriaeth.

- 6.2 Dylid nodi hefyd nad yw'r cynigion wedi newid lefel gyffredinol yr uchelgais o ran yr hinsawdd yn ETS y DU. Nid oes unrhyw effaith gyffredinol ar y costau na'r manteision i fusnesau. Nid oes unrhyw newid i'r cyflenwad lwfansau nag allyriadau disgwyledig yr allyrwyr. Nid oes unrhyw newid disgwyledig ychwaith i'r baich gweinyddol cyffredinol ar allyrwyr.
- 6.3 O ran effeithiau eraill, mae'r darpariaethau hyn wedi'u cynllunio hefyd i fynd i'r afael â nifer o amgylchiadau penodol i reoleiddwyr a gweinyddwr y gofrestrfa, gan gynnwys opsiynau i gymhwyso cosbau'n benodol os na fydd gweithredwyr neu weithredwyr awyrennau yn dychwelyd lwfansau. Unwaith eto, ni ddisgwylir i'r rhain fod yn gymwys ym mhob sefyllfa, ond gallent gael effaith o dan amgylchiadau penodol.
- 6.4 Er nad yw'n ofynnol gan bolisi'r Llywodraeth, cynhyrchwyd asesiad effaith rheoleiddiol o effaith ETS y DU ar gostau busnes, y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus ac mae ar gael ochr yn ochr â'r prif Orchymyn ar www.legislation.gov.uk.